Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2012(6) Papur 3 rhan 1**

**Dyddiad:** 12 Gorffennaf 2012
**Amser:** 10:30-12:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** John Grimes, est 8225

# Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad

## 1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 i'r Comisiwn i'w nodi, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor. Maent yn rhoi cyfrifoldeb ar y Pwyllgor i ddarparu "*Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi ei amseru i gynorthwyo'r broses o orffen y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, yn crynhoi ei gasgliadau ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.*"

1.2 Rôl y Pwyllgor yw cynnig cyngor a chefnogaeth i Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, ac i'w herio, mewn perthynas â'i chyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r Comisiwn. O'r gwaith a wnaed a'r sicrwydd a ddarparwyd drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn credu bod lefelau sicrwydd cyffredinol yn y Comisiwn yn dda, fel y cofnodwyd yn yr adroddiad.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir y Comisiynwyr i nodi'r adroddiad blynyddol.